OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2804 (Cy.243)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *17 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *23 Hydref 2006* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 75(1)(e) a 152(5) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Hydref 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2000" ("*2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000; ac

dehonglir "sector addysg uwch" ("*higher education sector*") yng ngoleuni Pennod I o Ran II o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**2**).

### Addysg neu hyfforddiant a ragnodir

**2.**—(1) Rhagnodir yr addysg a'r hyfforddiant a ddisgrifir ym mharagraff (2) isod at ddibenion adran 75 o Ddeddf 2000 (cylch gwaith estynedig Prif Arolygydd Cymru).

(2) Yr addysg a'r hyfforddiant yw'r rhai a ddarperir gan neu ar ran sefydliad yn y sector addysg uwch yng Nghymru—

(a) at ddibenion galluogi personau i ddod yn weithwyr ieuenctid a chymunedol; neu

(b) fel hyfforddiant pellach i weithwyr ieuenctid a chymunedol;

i'r graddau nad yw addysg a hyfforddiant o'r fath yn dod o fewn is-baragraffau (a) i (d) o adran 75(1) o Ddeddf 2000.

(**1**) 2000 p. 21.
(**2**) 1988 p. 40.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
17 Hydref 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi math o addysg a hyfforddiant at ddibenion adran 75 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ("Deddf 2000"). Mae adran 75 yn darparu cylch gwaith estynedig Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi addysg a hyfforddiant a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliad yn y sector addysg uwch yng Nghymru at ddibenion galluogi personau i ddod yn weithwyr ieuenctid a chymunedol neu fel hyfforddiant pellach ar gyfer personau sy'n weithwyr ieuenctid a chymunedol. Effaith y rhagnodi yw bod y math hwn o addysg a hyfforddiant yn cael ei ddwyn i gylch gwaith y Prif Arolygydd o dan adran 75 o Ddeddf 2000.